

## Llanw '22 yn Aberystwyth

Roedd y môr ar drai pan gyrhaeddodd ni Aberystwyth bawn Llan wedi'r Pasg ar gyfer croesawu pawb i'r wyl flynyddol nad oedd wedi ei chynnal yn y cnaud ers tair blynedd. Roedd y creigiau noeth yn amlwg a'r traeth yn lletach nag arfer. A ddeuai pobl yn eu holau? Faint o fabis newydd fyddai yno? Faint fyddai'r plant wedi tyfu? Sut fyddai pawb wedi tynnu drwy'r pandemig? Fyddai pawb yn rhydd o'r Covid er mwyn gallu dod? Dyna'r cwestiynau a âi drwy ein meddwl wrth i'r trefnwyr fentro cynnal gŵyl lai o hyd mewn lleoliad newydd, canolog.

Ond wrth i'r min nos gyrraedd a'r môr yn llenwi Bae Ceredigion unwaith eto, fe gyrhaeddodd dros ddau gant o bobl o Gymru benbaladr i gael bod ynghyd yn yr un lle eto i ddathlu atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist a'i foli yng nghwmni ei gilydd. Roedd Gŵyl Llanw '22 wedi cyrraedd o'r diwedd!

Fe ddechreuodd yr ŵyl yng ngwersyll Llangrannog yn 2009, ac un o'r siaradwyr yn yr ŵyl gynnar honno oedd Stuart Bell. Mae Stuart bellach wedi ymddeol ar ôl gweinidogaeth rymus yn eglwys y Santes Fair yn Aberystwyth. Fe roddodd anogaeth gref i fentro a meddiannu'r



Jonathan Thomas ymysg ffrindiau yn mwynhau'r picnic yn y parc

etifeddiaeth y mae'r Arglwydd wedi ei rhoi inni (gweler ei anerchiad yn rhifyn yr wythnos diwethaf o [Cenn@d](#)). Efallai ei bod yn drai arnom yng Nghymru ac mewn llawer o eglwysi Cymraeg, ond, fel y môr na fydd yn cael ei rwystro nes meddiannu hyd at ei derfynau bopeth sydd wedi ei ganiatáu iddo, na foed i ni osod terfynau ein hunain ar allu Duw, ac yntau wedi meddiannu cymaint mwy ar

ein cyfer. Rhoddwyd anogaeth arbennig i fenywod i hawlio'r etifeddiaeth hefyd, gan gymryd eu lle yn llawn oddi mewn i waith yr eglwys. Hyfryd oedd clywed gan Anna Mari, fu'n rhan o gymuned weddi Ffaldybrenin, am weddi a pherthynas efo'r Arglwydd, a chan Lydia Power o Gydweli am efengylu ar ffurf perthynas yn y manau lle rydym. Cafwyd darlith a chyflwyniad yr un pryd gan Jonathan Thomas o'r Fenni am Rosina Davies a'i rhan amlwg yn niwygiad 04/05 a'r gwersi inni heddiw o sylwi ar yr eneniad oedd arni. At hanes Mair a Martha yn Luc 10 yr aeth Jonathan ar yr ail noson, gan ein dwyn i sylwi, nid ar y chwirydd yn y diwedd, ond at wyrth yr Arglwydd sydd yn ein plith yn gofyn inni eistedd wrth ei draed yn mhopeth a wnan.

Cafwyd arweiniad ardderchog yn y cyfarfodydd i gyd gan y grŵp mawl dan ofal Siân Wyn Rees, Pontypridd, a'r cerddorion i gyd, a chyfle i ganu caneuon mawl fel: 'Bendigedig wyt', 'Daioni Duw', 'Mola'r lôr, f'enaid i'. Bore hwyllog gafwyd

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)



Lydia, Anna, Cyman a Menna fu'n cyflwyno cyfres o sgrysiâu byr o anogaeth

O'r seidin  
'Confused.com' neu 'Simples'  
Tudalen 4

Beth sy'n 'angenrheidiol'?  
Tudalen 6

Gwasanaeth Comisiynu  
Miriam Watling  
Tudalen 7

## Llanw '22 yn Aberystwyth

(parhad o dudalen 1)

fore Mawrth gyda gwasanaeth teuluol yng ngofal Martyn a Meilyr Geraint, a Martyn yn cael hwyl gyda'i bypedau a'i luniau, a'r plant yng nghanol y cyfan.

Fel y dywedodd Harley Fix o Lanllyfni, a Texas cyn hynny: 'Dwi'n mwynhau bod yn Llanw er mwyn bod yn rhan o'r gymuned o bobl o dros Gymru a bod efo'n gilydd am un waith mewn blwyddyn a gweld sut mae Duw ar waith dros Gymru i gyd.'

Cawsom brofi peth o'r hyn mae Duw yn ei wneud ar draws Cymru ar ddechrau y cyfarfod olaf nos Fawrth pan fu i Joseff Edwards rannu am ei friadau ef a'i wraig, Lydia, i gychwyn gwaith newydd yn y Gymraeg yn ardal Blaenau Ffestiniog. Soniodd am ei angerdd a'i faich dros ogledd Cymru a llefydd lle mae cynifer o bobl heb syniad am y gwahoddiad graslon sydd gan Iesu Grist i'w adnabod. Gofynnodd am weddi drostynt a'r trefniadau ymarferol yno wrth iddynt gasglu rhai i fod ynglŷn â'r gwaith newydd arloesol hwn.

Clywsom wedyn gan Cyran a Rachel Llwyd o Gaerdydd sydd ynglŷn â gwaith newydd yn y Gymraeg yn ardal Grangetown o'r ddinas, lle mae cymaint o amrywiaeth pobl a chynifer o Gymry Cymraeg ifanc yn rhan o'r amrywiaeth hwnnw. Soniodd am heriau gweithio drwy'r pandemig a chael lle i gyfarfod sy'n ddeniadol i'r to iau. Roedden nhw wedi gweld cymuned 'Angor' Grangetown yn tyfu o wythnos i wythnos, gyda chaffi yno'n orlawn o Gymry Cymraeg ar gyfer noson garolau.

Rhannodd Steff Morris, wrth gyflwyno a holi am y ddau le arall, am y gwaith newydd oedd wedi ei gychwyn yn ardal Llandysul ac am yr heriau a'r bendithion a welwyd yno. Cyfeiriodd yn arbennig at y gefnogaeth a welwyd wrth i rai gael eu galw i adael y fan lle roedden nhw ac ymuno efo nhw yn yr ardal a'r gwaith newydd. Peth pwerus oedd cael ymuno fel cynulleidfa gref o Gymry i weddio dros y gwaith newydd hwn yn ein gwlad, i fod yn ddisgwyllgar ar i'r Arglwydd roi ei fendith ac am gael meddiannu'r etifeddiaeth sydd ganddo ar ein cyfer eto (ac adleisio'r thema a osodwyd ar ddechrau'r wyl gan Stuart).

Wrth holi rhai am yr hyn fu'n help iddynt drwy ymuno yn yr wyl, dyma ddywedodd Rhiannon (16 oed) o Abertawe a oedd



Martyn Geraint yn arwain y plant mewn gwasanaeth teuluol

yno ei hun fel oedolyn am y tro cyntaf: 'Dwi'n credu mai'r hyn fydd yn aros efo fi ydy gweld pa mor fawr ydy'r gymuned Gristnogol Gymraeg. Ti'n gweld yma nad jyst y grŵp o chwech ohonom ni mewn eglwys fach ydy hi. Mae'n llawer mwy na hynny - ac mae angen ei gwneud yn wyl hirach!'

Cafwyd ffrwd fyw o'r sesiynau i gyd a chyfle i'r rhai oedd adref i ymuno hefyd.

Bydd pigion yn ymddangos ar y ffrwd honno ar Facebook [Llanw | Facebook](#) ac ar YouTube dros yr wythnosau nesaf ... ac ambell gân ar Spotify/Apple Music, yn ôl y sôn! Edrychwn ymlaen yn barod felly at wyl hirach yn Aberystwyth y flwyddyn nesaf ac am gael profi Llanw ac adnewyddiad eto. Fyddi di'n rhan ohono?

(Gol. HP-D)

## Gwahoddiad i Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala)

Mewn cyfnod mor ddiryngol yn hanes y byd, mae'n hanfodol ein bod yn dal ein gafael ar obaith, yng ngeiriau Pablo Neurada, 'yn dal i bysgota am olau mewn pwell o dywyllwch'. A 'Gobaith y Cristion' fydd thema'r Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala) a gynhelir eleni yn Seilo, Eglwys Unedig Llandudno, ddydd Mawrth, 17 Mai, i ddechrau am 9.45 y bore.

Rydym am edrych yn benodol ar dri maes yn y gynhadledd. Bydd Dr Ruth Richards, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith, yn trafod 'Gobaith ym maes Iaith a Diwylliant' a daw Dr Elin Ellis Jones, Ymgynghorydd Seiciatryddol yn Ysbyty Aneurin Bevan atom i drafod 'Gobaith ac Iechyd Meddwl'.

Fe gloir y gynhadledd gan y Parch Beti-Wyn James, Gweinidog Gofalaeth y Priordy, Caerfyrddin, fydd yn trafod 'Gobaith a'r Eglwys'.

Wedi gorfod gohirio cyfarfod am ddwy flynedd yn olynol oherwydd y pandemig, edrychwn ymlaen yn eiddgar at y gynhadledd. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb sydd â diddordeb, o bob enwad, ac fe fydd yn hyfryd croesawu hen gyfeillion a chyfeillion newydd atom i wrando a thrafod. Dewch yn llw!

Eric Jones (Cadeirydd)  
Megan Williams (Ysgrifennydd)

## Cenhadon i Gymru

Ar ddiwedd y 19eg ganrif anfonodd Cymru rai o'i meibion a'i merched gorau i wasanaethu fel cenhadon i diroedd pellennig ymhell cyn oes yr awyren. Cymaint oedd eu hargyhoeddiad nes yr oeddent yn barod i adael popeth er mwyn rhannu efengyl Iesu â'r rhai nad oedd erioed wedi ei chlywed. Mae straeon anhygoel am bobl fel Timothy Richards, Ffaldybrenin; Robert Jermain Thomas, Rhaeadr Gwy, a David Evan Jones o Landderfel yn dal i gael eu hadrodd heddiw.

Yn awr yn 2022 mae gweithwyr cenhadol yn dod o weddiill y byd atom ni yng Nghymru. Dros y tair blynedd diwethaf mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi bod yn ymateb i nifer cynyddol o bobl sy'n teimlo'u bod yn cael eu galw i Gymru o dramor. Sungsu a Nana P oedd y cyntaf i gyrraedd o dan y cynllun hwn, a daethant gyda'u tair merch o Seoul yn Ne Korea. Ar hyn o bryd maent yn byw yn Llanelli ac yn cefnogi'r weinidogaeth yn eglwys Hope/Gobaith. Roedd gan Anna K gysylltiadau cryf â Phenuel, Caerfyrddin, ac mae nawdd VISA wedi caniatáu iddi weithio gyda'r eglwys am gyfnod hirach. Cyrhaeddodd Jeff a Linda K o Los Angeles

yn 2021 ac maent bellach wedi'u lleoli o fewn Cymdeithas Gwent yn ceisio ewylls Duw i wasanaethu eglwys yn y rhanbarth hwnnw. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd Phil W yn gallu ymuno â ni yma yng Nghymru cyn yr haf. Bydd Phil wedi'i leoli gyda Chaersalem, Caernarfon, ond bydd ganddo hefyd weinidogaeth arloesol ehangach a fydd yn helpu ein heglwys i feddwl am gyrraedd y mwyafrif o bobl sy'n gweld Cristnogaeth fel rhywbeth yr ydym wedi'i anghofio a'i adael ar ôl yma yng Nghymru.

Ymhell cyn i'r cynllun noddi VISA yma ddechrau, cafodd rhai o'n heglwysy'r frainc o groesawu cenhadon am nifer o flynyddoedd, a hynny er budd mawr. Croesawyd pobl fel Peter a Hyeran C yn Nhrecelyn, Mike a Mary B yn Noc Penfro, Trey ac Amelia M ym Mhen-y-groes, Isaias G yn Llanelli, David C yn Nhreffynnon, a Rob ac Andrea F a ddychwelodd i Ganada o Aberteifi yn ddiweddar. Mae'r bobl hyn yn rhodd oddi wrth Dduw, ac maent yn dod â phrofiadau a safbwyntiau gwahanol i'r rhai ohonom sydd ddim ond wedi profi arferion Cristnogol Cymreig neu Brydeinig.

Fel pob gwaith cenhadol da, mae'r buddsoddiad o ran amser ac egni y mae'r bobl hyn yn ei wneud yn ein cyddestunau'n galw am aberth. Mae'r bobl hyn i gyd yn dod i Gymru gyda chefnogaeth ariannol a gweddi oddi wrth ffrindiau, teulu ac eglwysi. Maent yn treulio amser yn dysgu am ddiwylliant ac iaith newydd ac yn ymroi'n ddi-droi'n-ôl i gefnogi gwaith Duw yma yng Nghymru. Ac mae angen gwneud addasiadau bob amser, ar ran y gweithiwr newydd a'r eglwys sy'n derbyn.

Mae Cymru heddiw yn lle gwahanol iawn i'r un a adawodd Timothy Richards i fynd i China. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen inni rannu gyda phobl yng Nghymru sy'n gwybod yr holl eiriau i 'Bread of Heaven' ond sydd heb flasur bara byw. Rydym yn ddiolchgar i Dduw am bawb sy'n dod i wasanaethu a thystiolaethu yma yng Nghymru a gofynnwn i chi weddio drostynt hefyd.

*Os hoffech chi ddarganfod mwy am y rhaglen hon, mae gwybodaeth a manylion cyswllt ar gael: <https://ubc.cymru/cenhadaeth-cefnogol/cenhadaeth-yng-nghymru/noddi-gweithwyr/>.*

## Medalau Gee 2022 – ceisiadau a chyfarfodydd

Cyflwynir medalau Gee yn flynyddol i ffyddloniaid yr ysgol Sul, er cof am Thomas a Susannah Gee. Cyhoeddwr, perchennog newyddiaduron a golygydd Cymreig o Ddinbych oedd Thomas Gee. Datblygodd Gwasg Gee i fod yn un o'r gweisg pwysicaf yn hanes Cymru, a bu'r wasg yn ddylanwadol iawn am bron i ddwy ganrif, ers ei sefydlu yn nhref Rhuthun.

Mae croeso i ysgolion Sul enwebu rhai i dderbyn medal Gee unrhyw adeg o'r flwyddyn ond rhaid i unrhyw gais ar gyfer 2022 fod mewn llaw erbyn **30 Mehefin**.

Eleni cyflwynir y medalau yn y gogledd ddydd Sadwrn, 10 Medi 2022, yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, am 2yp, a chyflwynir y medalau yn y de ddydd Sadwrn, 24 Medi 2022, yn Eglwys Ebeneser, Rhydaman, am 2yp.

Edrychwn ymlaen at groesawu Dr Isoline Grenaulgh a Dr Dorothy Gee Williams o deulu'r diweddar Thomas a Susannah Gee atom i gyflwyno'r medalau hyn.

Rydym yn croesawu enwebiadau am fedalau o blith yr eglwys yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei (h)eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r ysgol Sul (mae ein diffiniad o ysgol Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd / seiadau trafod canol wythnos). Mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu o wefan [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com).

Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus o ddiolch i athrawon ysgol Sul ar ddsbarthiadau plant ac ieuencid am oes o wasanaeth, ac i gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes yna



Thomas Gee

rywrai yn eich ysgolion Sul chi yn y categorïau hyn? Os oes, yna ewch ati i enwebu!

Gyda llawer o ddiolch, ar ran Cyngor yr Ysgolion Sul,  
Aled Davies  
Cyfarwyddwr

## O'r seidin

### 'Confused.com' neu 'Simples'

Na, nid Aleksandr Orlov na Sergei sy'n sgwennu, ond yr injan fach sydd erbyn hyn wedi cael mynd i'r seidin am 'bach am ei bod yn dechrau rhedeg allan o stêm.

Yn ystod holl gyfnod y Covid cefais y fraind o fod yn Gadeirydd Cwrdd Chwarter Annibynwyr Môn a Llywydd Henaduriaeth Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ym Môn. Ac er bod gan y ddau enwad ffordd wahanol iawn o ddelio â materion eglwysig, canfyddais mai yr un Arglwydd a'r un ysbryd oedd yn gyrru'r agenda, a'r un Iesu Grist oedd yn gyson gyffredin rhyngom yn arwain y gwaith. Deuthum allan o f'ymddeoliad gyda'r Presbyteriaid ar gais y cyn-Lywydd oedd eisoes wedi cyflawni dwy flynedd wrth y llyw ac yn pwyso arna i i dderbyn y fantell ganddo. Na, mantell ac nid clogyn, gan na wisgais i erioed na gŵn na cholera nac unrhyw wisg offeiriadol erioed!

Wel, tydi hynny ddim cweit yn wir. Oherwydd, wrth imi ddisgwyl cael f'ordeinio yn Sasiwn Seion, Croesoswallt, yn 1992 cefais barsel arbennig o gwmni Whippels, Llundain. Tua diwedd y prynhawn, fe benderfynais wisgo'r crys i weld oedd o'n ffitio. Tynnais y crys o'r boc, gan gadw'r papur lapio'n ofalus rhag ofn y byddai'n rhaid imi ddychwelyd y crys am faint gwahanol. Dyna lle'r oeddwn i, yn torsythu gerbron y drych hir i lawr grisai', a meddwl fy mod yn edrych yn dipyn o foi yn y crys.

Yna, a finnau wedi hanner anghofio imi briodi un o blith yr iawn Ymneilltuwyr (sef y Bedyddwyr), dyma'r drws ffyrnt yn agor. Daeth fy nghymar annwyl i'r lobi. Wedi diosg ei chôt, gofynnodd, 'O ble gest ti honna?' Atebais, 'Wel, fe ddaeth trwy'r post heddiw, chwarae teg i Anti Gwen Llundain.'

Heb wên ar ei hwyneb, dywedodd, 'Os wyt ti'n bwriadu gwisgo peth felly i bregethu ar y Sul, fydda i ddim yno'n gwrando arnat ti! Bydd yn chdi dy hun fel roedd Iesu!'



A dyna ddiwedd ar y sioe ffasiwn i mi. Penderfynais roi'r crys yn anrheg i un o'm ffrindiau pennaf yn yr 'English Cause', lle rwy'n gwybod y cafodd ddefnydd llawn a phwrpasol ganddo.

Soniais o'r blaen mai rhyw dipyn o 'licris ôl-sorts' o Gristion y bûm i erioed: peth Catholig, Eglwyswr, Bedyddiwr, Presbyter ac Annibyn, a tydi 'diwinyddiaeth' fel y cyfryw ddim wedi fyysbrydoli yn fy ngwaith fel gweinidog. Gwn fod rhai ohonoch yn gosod pwys mawr ar ddadansoddi bywyd, gwaith, gweinidogaeth Crist ac yn barod i athronyddu ar Gristoleg ac eschatoleg a phethau felly. Ond syniadau dynion ydy'r rheini: dynion gyda meddyliau praff yn ceisio pwyso a mesur egwyddorion y deyrnas, natur Crist, a bodolaeth Duw a'r Bywyd Tragwyddol.

Ond, wyddoch chi ddim! Wyddon ni ddim! Ffrwyth gwaith meddwl dynol a chwblfydol ydy hyn yn y bôn. Mae'r cyfan yn fy ngwneud yn 'confused.com' go iawn.

Rwy'n teimlo'r saethau tanllyd yn fy nharo o bell ac agos. 'Pwy yw'r heretig hwn, a pha fodd y cafodd fugeilio praid Duw cyhyd?' Iesu fu'r ffocws gennyf ar gyfer pob peth, ac felly fydd hi tra bydda

i. Y cyfan a wnaeth Paul o'r dechrau oedd drys pethau, a dechrau diwinyddia a gosod rheolau, a cheisio gwneud i'r Eglwys Fore gydymffurfio â'i weledigaeth ef o'r eglwys. Ond erbyn hyn fe fyddwn yn barod i ddadlau fod yr enwadau sydd wedi eu hetifeddu gennym yn waddol, o bob traddodiad, mor bell o'r hyn yr oedd gan Crist mewn golwg. Pwy wêl fai ar y byd yn teimlo'n 'confused.com' wrth weld beth wnaethon ni â gweledigaeth Iesu, a oedd mor 'simples' mewn gwirionedd: syml, cofiwch, ac nid shimpil!

**"Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun"** – hwnna ydi o. Dyna fo a dyma fi; yma y safaf, nis gallaf wneud dim mwy. Tan tro nesa, daliwch ati.

*Jim Clarke*

Gol. Cofiwch, ddarllenwyr *Cenn@d*, yr hoffem fod yn fforwm i drafodaeth yn ogystal â bod yn bapur newyddion. Rhowch fys ar eich bysellfwrdd, anfonwch air atom a gadewch i ni gynnwys eich ymatebion cryno i rywbeth sydd wedi eich annog neu eich cynhyrfu, rhywbeth rydych wedi cytuno neu wedi anghytuno â nhw!

S4C

*Caniadaeth y Cysegr*

Sul, 8 Mai, am 7:30yb a 4:30yp

Mererid Hopwood yn trafod emynwyr a cherddorion o amrywiol wledydd sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

Sul, 8 Mai, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog

BBC radio cymru

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

Sul, 8 Mai, am 7.30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Wrth nesáu at Wythnos Gweithredu Dementia, clywn am eglwys sy'n estyn llaw i bobl â dementia

## Cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru, 2022

Mae croeso i bawb i Gaerfyrddin ym mis Mehefin ar gyfer cyfle llawen i ailgysylltu â'n gilydd. Ddydd Gwener, 24 Mehefin, cawn gyfle i ddod at ein gilydd fel Undeb ar gyfer ein cynhadledd flynyddol, ac yna bydd rhaglen amrywiol ac anffurfiol i'r teulu cyfan ddydd Sadwrn, 25 Mehefin, a fydd yn ceisio ein helpu ni i wrando ar Dduw!

Mae croeso i bawb i'r cyfarfodydd ar y dydd Gwener, pan fyddwn yn sefydlu ein Llywydd newydd, Dr Densil Morgan. Bydd ein cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng 10am a 6pm, a bydd pryd o fwyd gyda'r nos gyda'n gilydd yn dilyn. Cost tocyn fydd £32 y pen (i lawr o'r tro diwethaf), gan gynnwys cinio a swper.

Bydd ein diwrnod 'Gweddi, Gŵyl a Hwyl' yn dilyn ddydd Sadwrn, 25 Mehefin (10am-4pm). Fe'i cynhelir ar y cyd â'r South Wales Baptist Association (SWBA) a'r Baptist Missionary Society (BMS), a bydd yn ddiwrnod arbennig i deulu cyfan y Bedyddwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ar y thema 'Clywed Llais Duw'. Bydd y diwrnod cyfan yn addas i deuluoedd,

gyda gweithgareddau i bob oedran a chyfle i adnewyddu cyfeillgarwch gyda ffrindiau – hen a newydd. Cost tocyn oedolyn fydd £12, a bydd plant yn gallu dod am ddim. Yn ysbryd yr Eisteddfod, mae'r diwrnod yn cynnig dewis i chi fynychu cymaint neu cyn lleied o weithgareddau ag y dymunwch, gyda'r pwyslais ar 'ddod at ein gilydd':

- ymgysylltu'n greadigol â'n darlenniad o'r Beibl wrth i ni glywed Duw yn siarad trwy Ei Air;
- os hoffech chi ganu, ewch draw i'r côr cymunedol!
- dod â rhywfaint o greadigrwydd i'r prosiect celf cymunedol gyda chelf a chrefft;
- ymunwch â hwyl a gemau yn y Neuadd Chwaraeon;
- ewch yn ddyfnach mewn cyfres o sgysiaau byr ar faterion amserol gyda siaradwyr gwadd;
- neu efallai eich bod chi eisiau mwynhau hufen iâ yn yr haul a dal i fyny gyda ffrindiau – gallwch chi wneud hynny hefyd heb deimlo y dylech chi fod yn rhywle arall!

Bydd ffurflenni cofrestru yn cael eu rhoi yn y post i'r capeli i gyd, neu ar gyfer y dydd Sadwrn neu'r deuddydd (am bris gostyngol o £40): [Gweddi, Gwyl a Hwyl / Prayer, Picnic and Party! Tickets, Sat 25 Jun 2022 at 10:00 | Eventbrite](#)

## Capel y Morfa, Aberystwyth – Llan Llanast y Pasg, Gwasanaeth y Pasg a Helfa Wyau'r Ysgol Sul

Cynhaliwyd Llan Llanast y Pasg fore Sul, 3 Ebrill. Darparwyd nifer o weithgareddau crefft i'r plant yn gysylltiedig â digwyddiadau'r Wythnos Fawr, a rhoddwyd y gwaith ar frigau'r goeden Basg.

Ar fore Sul y Pasg cafwyd cyfle i ddod at ein gilydd yn un teulu i ddatlu atgyfodiad yr Arglwydd Iesu yn yr ardd ger y capel. Canwyd yr emyn 'Heddiw cododd Crist yn fyw, Haleliwial!' i gyfeiliant offeryn pres Steffan Jones. Aeth y gynulleidfa i'r capel i barhau â'r addoliad, a'r plant a'r ieuencid a'u teuluoedd i goedwig Penglais i chwilio am yr wyau a guddiwyd yno. Roedd tasg ychwanegol ar y diwedd, sef gosod yr wyau a llythrennau arnynt i ffurfio'r adnod 'Mae Iesu yn fyw'.

*Eleri Davies*



Llythrennau ar yr wyau yn ffurfio'r adnod MAE IESU YN FYW



Gwasanaeth Pasg yn yr ardd



Helfa Wyau ym Mharc Penglais



Coeden Basg Llan Llanast y Pasg



Eglwys Bresbyteriaidd Cymru

**SASIWN GENHADOL  
CHWIORYDD Y DE  
yn  
EGLWYS Y GOPA,  
PONTARDDULAIS**

**Dydd Iau, Mai 19eg, 2022**

Cyfarfod y Prynawn  
am 2.00 o'r gloch

Parch. Derek Rees  
Galluogwr Cenhadol

Cyfarfod yr Hwyr  
am 5.30 o'r gloch

Dr Graham Thomas  
'Prosiect Lesotho'  
**Croeso cynnes i bawb**

# Beth sy'n 'angenrheidiol'?

**Darllen:** Luc 10:38–42 – Mair a Martha

Rydym yn byw mewn byd prysur, mewn gwirionedd yn y wlad brysuraf yn Ewrop. Mae Tim Chester wedi sgrifennu yn *The Busy Christian's Guide to Busyness* fod gweithwyr ym Mhrydain yn gweithio naw awr y dydd – awr yn fwy na'r Eidalwyr – a dim ond yn cael 28 o ddyddiau o wyliau; ceir 47 o ddyddiau yn Ffrainc. Rydyn ni hefyd yn gweithio wyth awr o oriau goramser – yn ddi-dâl! Beth am y rhai sydd wedi ymddeol? Cyfrif y moddion yn y bore ac edrych ar ôl yr wyrion yn y prynhawn – prysurach nag erioed! Wedyn, beth am ein ffonau clyfar a'r cyfryngau cymdeithasol? Gwneud gwaith yn rhwyddach? Neu jyst mwy o waith?

Mae hyn yn golygu nad oes fyth amser tawel. Ac felly, mae'r hanes hwn yn hollbwysig yn yr eglwys heddiw. Fel Martha, mae llawer ohonon ni'n awyddus i wasanaethu Iesu. Ac mae'n dda gwneud rhywbeth da ... fel gwasanaethu Iesu! Fe wnes i holiadur yn yr eglwys. Roedd 86% yn gwasanaethu, a 94% ohonyn nhw'n teimlo fod gwasanaethu'n gymorth i dyfu fel Cristion. Ond, mae dau beth sy'n creu problem. *The Pareto principle*: mae 20% yn gwneud 80% o'r gwaith. Ai chi yw'r 20%? A dros amser – ceir blinder. Mae hyn yn creu *hurry sickness*, yn ôl Tim Chester. Rydyn ni'n caru'r syniad o wasanaethu Iesu, ond weithiau mae'r profiad yn hollol wahanol ... yn galed.

Hefyd, fel Martha, mae llawer ohonon ni'n poeni cymaint sydd gennym i'w wneud. Rydyn ni'n dechrau gwasanaethu â brwdfrydedd a gorfoledd, ond mae hynny'n troi'n chwerw ... yn *stress*. Mae rhywbeth da yn troi'n rhywbeth afiach. Rydyn ni'n gallu bod mor brysur yn gwneud gwaith i Dduw fel ein bod ni'n anghofio am y gwaith mae Duw am ei wneud ynom ni. A beth mae Martha'n ei ddweud? 'Arglwydd, wyt ti ddim yn poeni?'

Ydyn ni'n gofyn yr un cwestiwn?

- Wyt ti ddim yn poeni am fy ngweinidogaeth? – pobl ddim yn helpu
- Wyt ti ddim yn poeni am fy mhlant? – y gŵr ddim yn helpu
- Wyt ti ddim yn poeni am beth sydd yn bwysig i mi?

Ydych chi'n teimlo fel hyn?

Mae un rheswm arall pam mae'r stori hon yn berthnasol i ni heddiw: fel Martha, ambell waith dydyn ni ddim yn gwerthfawrogi amser gyda'r Arglwydd. Mae hyn yn anhygoel, yn rhyfeddol. Mae Martha yn dweud wrth Iesu am geryddu Mair am eistedd wrth draed yr Iesu, am wrando. Y foment yma dydy Martha ddim yn gwerthfawrogi amser gyda'r Iesu. Mae hi'n becco mwy am wasanaethu'r Arglwydd na chael ei gwasanaethu gan yr Arglwydd.

Tybed ydych chi fel Martha o gwbl? Sut mae'ch amser tawel chi? Ydy e'n sych, yn

brysur neu'n ffwrdd â hi? Rydw i'n gallu bod fel hyn.

Ydych chi'n meddwl bod amser gyda Duw yn angenrheidiol? Mai dyma ddylai fod y 'rhan dda', neu ydych chi fel fi? Gwrandewch ... peidiwch â theimlo'n euog. Gwrandewch ar ymateb Iesu yn adnod 41. Ydych chi'n gweld y ffordd mae Iesu'n ymateb i *stress* Martha? Dyw e DDIM yn dweud:

- O, bechadur bach .... ewch 'nôl i'r gegin!
- Peidiwch â siarad efo fi fel 'na ... ewch!
- O wel, Cristion ail lefel wyt ti, *second rate, rubbish!*

Na, mae Iesu'n ymateb gyda geiriau llawn cariad: 'Martha, Martha ...' Wedyn mae'n mynd yn syth at galon y sefyllfa: 'yr wyt yn pryderu ac yn trafferthu am lawer o bethau'. Mae Iesu yn gwybod beth sydd yng nghalon Martha – beth mae'n ei deimlo. Dyma newyddion da i chi – mae Iesu yn gwybod am eich teimladau.

Ac yma mae'n rhoi'r cyngor gorau i'n cenhedlaeth ni: 'dewis y rhan orau' (adn. 42), yr angenrheidiol. Mae'r byd busnes yn galw hyn yn *essentialism*. Yn un o'i lyfrau mae Greg McKeown yn disgrifio hyn fel 'the disciplined pursuit of less'.

Sut allwn ni ddysgu dewis y gorau – yr angenrheidiol – fel Mair?

Dyma dri phwynt o'r darn – ar y tri pherson yn yr hanes:

## 1. Gwnaeth Martha rywbeth da

Mae'n rhaid cofio hyn a bod yn garcus: dydy Luc ddim yn dweud bod Martha'n ofnadwy. Hi roddodd y gwahoddiad i Iesu ddod i mewn i'r tŷ (adn. 38). Dydy Iesu ddim yn dweud bod *activism* (gweithio'n galed) yn wael. Yn union o flaen yr hanes hwn ac er mwyn gosod y cyd-testun, fe geir dameg y Samariad caredig! Na, mae Iesu yn dweud mai'r peth pwysig / y rhan orau / y rhan dda – yw eistedd wrth draed yr Iesu.

Dyma'r pwynt: blaenoriaethu a phwysigrwydd amser gyda Duw, er mwyn byw i Dduw. Mae rhaid i ni adael i Iesu ein gwasanaethu ni cyn i ni ei wasanaethu ef. Dyma'r flaenoriaeth, y drefn gywir – Iesu'n gyntaf.

Dywedodd Spurgeon: 'It is not an easy thing to maintain the balance of our spiritual life. No man can be spiritually healthy who does not meditate and commune; no man, on the other hand, is as he should be unless he is active and diligent in holy service.'

Dyma'r broblem: rydyn ni mynd i wneud pethau. Ond dydyn ni ddim yn eistedd a gwrando. Felly'r canlyniad ydy dryswch a phryderu. Dydy'r darn hwn ddim yn condemnio gweithio'n galed; mae hynny'n dda. Ond mae rhywbeth mwy pwysig fyth: y rhan orau – eistedd wrth draed yr Iesu.

## 2. Gwnaeth Mair rywbeth gwell

Dywedodd Kent Hughes: 'The story of Mary and Martha is actually about the necessity of the priority of the word of God in the life of active service for the master.' Mae hyn i gyd ynglŷn â threulio amser gyda Duw er mwyn ei wasanaethu ef. Mae Alistair Begg yn awgrymu bod Iesu yn dweud: 'I want to talk to you about the quality of your relationship with me, rather than the quantity of your work for me.'

Mae'n rhaid i ni ysyried bod gweddi a darllen y Beibl yn allweddol. Dyma'r peth angenrheidiol. Mae popeth arall yn llifo allan o hyn. Mae'r amser tawel yn ein rhoi ni yn ôl mewn ffocws er mwyn inni weld y llun mawr – y *meta narrative* ... Duw!

## Felly, pwy ydych chi? Martha neu Mair?

Dyna'r cymhwysiad normal. Ond na! Mae rhaid i ni fod fel y ddwy: Martha yn gweithio, a Mair yn eistedd. Ond nid dyna bwynt yr hanes. Na, mae'n rhaid inni edrych am y gwir arwr yn y stori. Wrth edrych yn rhy fanwl ar Martha a Mair, rydyn ni'n colli'r person mwyaf pwysig.

## 3. Iesu yw gwir arwr y stori – y gorau

Meddylwch amdano fe. Mae Duw yma: Duw mewn cnawd, wedi dod yn un ohonom. Mae Duw yn siarad. Y Gair oedd wedi creu'r byd a'r nefoedd – popeth. Mae Duw yn dod yn agos. Dyma'r Duw goruchaf yn ymestyn at bobl fel ni. Dyma'r wyrth fwyaf! Dydy Luc ddim yn dweud: peidiwch â bod fel Martha, jyst byddwch fel Mair. Na, mae'r Ysbryd Glân yn dweud drwy Luc: dewch at yr Iesu, gwrandewch arno ef! Wrth darllen y Beibl rydym yn gweld y gweddnewidiad! Rydym yn byw ar ôl y Pentecost; mae'r ysbryd tu mewn i ni. I'r Cristion heddiw, mae darllen y Beibl a gweddi yn golygu eistedd wrth draed yr Iesu. Mae Crist, y Gair, yn y Gair. Mae'r Ysbryd Glân, ysbryd Crist, ynom ni.

Felly, mae darllen a gweddi'n gymundeb, yn gymdeithas, yn foddion gras. Ydych chi'n pryderu, yn becco, yn *stressed*, yn brysur? Ydych chi'n meddwl nad ydy'r Arglwydd yn poeni amdanoch chi? Dewch at draed yr Arglwydd. Fel Mair, dewiswch y rhan orau, y person gorau, Iesu ... yn y gair. Mae'n rhaid inni ddyheu am fod wrth draed Iesu. Mae rhaid i ni dewis bod wrth draed Iesu. Mae Iesu am ddod i mewn i'ch tŷ chi. Mae Iesu am siarad efo chi. Mae Iesu am gael cymundeb, cymdeithas, gyda chi.

Fe fynegodd Ann Griffiths y dymuniad yma'n glir iawn yn y pennill hwn ganddi:

O na chawn i dreulio 'nyddiau'n  
fywyd o ddrychafu ei waed;  
llechu'n dawel dan ei gysgod,  
byw a marw wrth ei draed;  
caru'r groes, a phara i'w chodi  
am mai croes fy Mhriod yw,  
ymddifyr ym ei berson  
a'i addoli byth yn Dduw.

Jonathan Thomas  
Y Fenni

(Anerchiad a draddodwyd yng Ngŵyl Llanw yn Aberystwyth wedi'r Pasg)

# Gwasanaeth Comisiynu Miriam Watling yng Nghapel Cymraeg Clapham


## 23 Ebrill 2022

Roedd dydd Sadwrn, 23 Ebrill 2022, yn ddiwrnod pwysig iawn i eglwysi Eglwys Bresbyteraidd Cymru Llundain. Hwn oedd y diwrnod yr oeddem yn comisiynu merch ifanc o'r enw Miriam Watling yn Alluogwr Ymestyn Allan i'r cylch.

Arweiniwyd y gwasanaeth a'r comisiynu yn gelfydd iawn gan y Parchedig T Evan Morgan, Caerdydd, Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC. Pleser oedd croesawu gwsteion o Gymru i Gapel Cymraeg Clapham: daeth mam a thad Miriam, sef y Parchedigion Nan a Huw Powell-Davies o'r Wyddgrug, a daeth y Parchedig Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, a'i wraig, Sarah, o Landysul. Cafwyd cefnogaeth gref gan aelodau'r pum eglwys yn Llundain, gan gynnwys y teuluoedd oedd yn cymryd rhan, ac roedd yn braf cael y cyfle i ymgynnull gyda'n gilydd mewn un lle i ddathlu achlysur mor arbennig. Cafwyd lluniaeth ysgafn yn y festri wedi'r oedfa a chyfle hyfryd i bawb i gymysgu a sgwrsio dros paned o de.

Yn ôl swydd ddisgrifiad, pwrpas y gwaith yw helpu'r gweinidog i greu cyfleoedd i'r eglwysi ymestyn allan i'r cymunedau lleol o'u cwmpas a denu'r cymunedau hynny i mewn i deulu ein heglwys ni. Y freuddwyd yw gweithio ar brosiectau mewn cydweithrediad â mudiadau lleol: ymuno â rhai sydd eisoes mewn bodolaeth a chreu cysylltiadau newydd ac arwain y ffordd mewn prosiectau eraill. Gwaith heriol!

Mae gwaith o'r fath bob amser yn sialens, lle bynnag y mae'n digwydd – boed



Miriam yn cael ei chomisiynu gan Evan Morgan

rywle yng Nghymru neu mewn cymuned arbennig yn Llundain. Ond, o safbwynt EBC mae Llundain yn fwy heriol byth oherwydd y pellter rhwng y pum eglwys. Mae cymunedau'r pum eglwys mor wahanol am fod y lleoliadau mor bell oddi wrth ei gilydd. Mae rhai o'r eglwysi mewn ardaloedd llewyrchus ac eraill mewn ardaloedd mwy anghenus.

Her arall oherwydd y pellteroedd yw'r amser a gymerir i deithio o le i le. Ers i mi ddod i fyw yn Llundain rwyf i'n bersonol wedi dysgu fod siwrne sy'n cymryd ugain munud yng Nghymru yn gallu cymryd awr neu fwy yn Llundain – a hynny mewn car! Fe all gymryd yn hwy ar drafnidiaeth gyhoeddus!

Ond er i'r comisiynu ddigwydd ym mis Ebrill 2022, mae Miriam wedi dechrau ar y gwaith ers mis Medi 2021. Mae

eisoes wedi creu cysylltiadau ac wedi dechrau cyfrannu i brosiectau lleol. Bydd ei chyfraniad i'r gwaith ar ganolfan Leytonstone yn amhrisiadwy wrth i hwnnw ddatblygu dros y misoedd/blynnydoedd nesaf.

Mae ganddi'r bersonoliaeth a'r ddawn i weithio'n arbennig o dda gyda phlant, ac mae eisoes wedi dechrau arwain cylch meithin sydd ynghlwm wrth un o'n capeli. Y bwriad yw sefydlu cylchoedd tebyg yn gysylltiedig â rhai o'r capeli eraill.

Mae'r gwaith hefyd yn gyfle iddi hyrwyddo Cymru, ein hiaith a'n diwylliant yma yn Llundain ac yn fodd o ledaenu'r Efengyl drwy ein mamiaith, sydd yn aml yn ail iaith i'r plant hynny a gafodd eu geni yn Llundain i rieni o Gymru.

Mae'r cysylltiadau y mae Miriam eisoes wedi eu gwneud gydag Ysgol Gymraeg Llundain yn bwysig i gefnogi'r gwaith hwn.

I gloi, mae cyfnod cyffrous iawn o'n blaenau yma yn Llundain ac edrychwn ymlaen at y daith yng nghwmni Miriam. Boed bendith Duw ar ei gwaith a boed i'r Arglwydd ei chynnal a'i harwain i'r dyfodol.



Capel Cymraeg Clapham



Y plant fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth

*Moyra Greany*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

**Darlleniad Salm 23 neu Salmau Cân Newydd** – <https://www2.bible.com/bible/1364/PSA.23.scn>

## Gweddi

Geidwad bendigedig, saf yn ein plith eto heddiw, fel y sefaist yng nghwmni'r gwagedd wrth y bedd gwag a'r disgyblion yn yr oruwchystafell gynt. Dangos i ni drwy dy Ysbryd Glân rinweddau dy gariad. Saf yn ein plith fel y gwaredwr sy'n adfer. Gogonedda dy hun yn ein plith, Grist Atgyfodedig, ynghyd â'r Tad a'r Ysbryd Glân.

## Darlleniad Ioan 10:22-30

I bob un ohonom mae'r manau, y pethau, neu'r bobl yr ymddiriedwn ynndynt, yn anorfod yn llywio ac yn lliwio'r hyn a gredwn am ein cyflwr yn y byd presennol, neu am yr hyn a ddigwydd i ni ar derfyn ein hoes. 'Dymuniad' yw credu (neu beidio â chredu) bod 'rhywbeth arall' neu 'fywyd wedi marwolaeth'. 'Gobaith' wedi ei sefydlu ar ffydd mewn person arbennig sydd wrth wraidd gobaith y Cristion. Mae ein hymateb i Iesu yn datguddio ym mhle y gosodwn ein gobeithion.

\*\*\*

Wedi buddugoliaeth Jwdas Macabeus, tua chanrif a hanner ynghynt, adferwyd rhyddid y genedl ac adferwyd addoliad y deml. Yn ystod gŵyl Hanukkah ceisiodd arweinwyr Jwda gadarnhad gan Iesu. Ai ef oedd y Meseia hirddisgwyliedig? Oni fyddai'r Meseia ar ei ddyfodiad yn casglu'r ŵyn, ac yn arwain ei braidd? Onid oedd Iesu wedi mynnu mai Ef oedd y Bugail da? Tybed ai ef oedd yr un y buont yn ei ddisgwyli? Tybed a fyddai'n arweinydd tebyg i Jwdas Macabeus?

Cystwyodd Iesu ei wrthwynebwy am eu hanghrediniaeth. Roeddynt yn euog, meddai, nid yn unig o'i wrthod ef ond o wrthod geiriau a gweithredoedd y Tad. Gwrthod y Tad oedd ei wrthod Ef.

Ef, mae'n wir, oedd y Bugail da. Roedd gan ei 'braidd' nodweddion arbennig a breintiau neilltuol. Roedd ei braidd, 'yn gwrando' ar ei lais, yn adnabod ei leferydd ac yn ei ganlyn. Roeddynt hefyd yn bobl yr oedd Iesu'n eu hadnabod yn unigol. Caent brofi nerthoedd y bywyd tragwyddol ac ni fyddent yn syrthio i ddistryw, ac ni fyddai unrhyw un yn medru eu cipio o'i afael. Mae eu diogelwch yn ei law ef, ac yn llaw'r Tad, yn gwbl sicri dragwyddoldeb.

## Emyn 303: 'Wrth droi fy ngolwg'

### Darlleniad Datguddiad 7:9-17

Un o'r ystafelloedd harddaf a welais erioedd oedd: [Llyfrgell Strahov](#) yn ninas Prag. Ar nenfwd y llyfrgell ceir nifer o olygfeydd lliwgar sy'n rheibio'r synhwyrau. Mae'n amhosibl gwybod ymhle mae dechrau edrych! Llinol yw unrhyw ddisgrifiad o'r hyn a welwn. 'Gwelais' ac 'wedi hyn' yw'r unig ffordd y gallwn fynegi, gyda'n geirfa gyfyng, harddwch yr hyn a welwn.

Nid 'datguddiad' llinol yw Datguddiad Ioan chwaith. Nid 'dyma hwn', ac yna 'dyma hyn', ac 'yn awr dyma ...' fel pe baem yn cerdded o un garreg filltir i'r nesaf. Mae Datguddiad Ioan i'r gwrthwyneb yn 'ddatguddiad' o'r hyn sy'n realiti ddoe, heddiw, yfory ac i dragwyddoldeb – ac y mae'r cyfan yn bodoli yn awr, ar un waith a'r un pryd!

Byddai'n rhwydd iawn inni syllu a chael ein synnu gan fawl y 'dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl, a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd', neu gael ein byddaru gan y lleisiau sy'n 'gweiddi â llais uchel'.

A phwy fyddai'n ein beio pe byddem yn oedi i wrando ar 'yr holl angylion' sy'n 'sefyll o amgylch yr orsedd a'r henuriaid a'r pedwar creadur byw' wrth iddynt syrthio 'ar eu hwynebau gerbron yr orsedd ac addoli Duw'? A phwy ohonom na fyddai'n oedi i syllu ar yr 'henuriaid a'r pedwar creadur byw' wrth iddynt arllwys eu mawl gerbron yr Arglwydd?

Byddai'n rhwydd iawn inni gael ein cyfareddu gan y rhai oedd yn addoli a chan harddwch eu gwedd a chyffordduswydd llawen eu cyflwr. Wedi'r cyfan, roeddynt yn dod 'drwy'r cystudd mawr'. Mor llawen yw eu bryd – heb na newyn, na gwres, na dagrau, na galar, na phoen i'w blino mwyach. A'r Arglwydd yn noddfa ac yn gysgod iddynt.

Byddai'n rhwydd syllu ar ogoniant y bobl yma. Nid yng ngharpiau eu methiannau y'u gwelir bellach. Dacw dyrfa addolgar o bob cenedl, llwyth ac iaith a olchwyd ym maddeuant ac yn nigonolrwydd aberth Iesu drosom. Mentyll gwynion, rhoddion trugaredd Duw ei hun, oedd y wisg a estynnwyd iddynt ac a wisgwyd ganddynt.

Byddai, fe fyddai'n rhwydd iawn syllu fel hyn.

Ond byddai edrychiad o'r fath yn colli'r canolbwynt yn llwyr. Yno, ar ganol yr orsedd, eisteddai Duw ei hun. Ac ef ei hun sy'n deilwng o'r mawl. Arno ef y mae pob un yn syllu, ac ef ei hun yw'r unig un sy'n cael ei addoli. Testun eu caniadau oedd y 'waredigaeth', a'r gwaredwr, yr 'Oen', sydd ar ganol yr orsedd. Gwiredwyd eu dyheadau: 'Canna f'enaid yn y gwaed/ a gaed ar Galfari'. Aberth yr Oen 'brynodd i Dduw a'i waed bobloedd o bob cenedl, llwyth ac iaith' ac ef a ddarparodd iddynt y wisg wen, ddisglair, a wisgwyd gan y saint. Ef ei hun yw canolbwynt pob mawl.

Mewn un naid annisgwyl a dramatig newidir y ddelwedd. Dywed Ioan wrthym mai'r Oen a aberthwyd yw bugail y praidd hefyd.

Trwy ei allu a'i drugaredd, ei gysgod a'i nerth, cerddodd ei bobl ddyffrynnoedd tywyll, du, ac ar hyd glyn cysgod angau. Ac ef, y bugail gogoneddus, tirion, ddygodd ei braidd i borfeydd gwelltog ei drugaredd. Ac ef ei hun, yn ei ostyngeddwrwyd tirion, yw'r un sy'n sychu pob deigrin o'n gruddiau.

Mor gyfoethog yw ac a fydd y Cristion gwannaf ei ffydd. Dyma'r tlawd a gyfoethogwyd, y gwrthryfelwr y maddeuwyd ei droseddau, a'r cardodyn gafodd wisgo gwisgoedd brenhinol. Dyma'r un sydd yng nghanol helbulon a chystuddiau ei fywyd beunyddiol sy'n cael ei dywys gan y bugail da. Clywodd lais y bugail da, ei adnabod a'i ddilyn. Er y treialon a ddaw i'w ran, ni fydd unrhyw un yn medru ei ddwyn o law ei Arglwydd. Y mae llaw anorchfygol yr Arglwydd Dduw ei hun yn cysgodi drosto.

Pob cur a dolur drwy'r daith – a wellheir  
Yn llaw'r meddyg perffaith.  
Gwaed y groes a gwyd y graith  
Na welir moni eilwaith.

Ioan Madog

## Gweddi

Arglwydd, maddau i ni fod eingweledigaeth ohonot ac o'n breintiau mor fychan, fod ein mawl mor oeraidd, fod ein ffydd a'n hyder mor simsan. Dyro i ni dy 'weld' drwy ffydd. Rho'r hyder anorchfygol yn ein calonnau, yn Iesu Grist. Amen.

## Emyn 511: 'Agorodd ddrws i'r caethion'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

[f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru)

[t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)